**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (125)**
**Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

NDM2345 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2005-3, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn sydd wedi'u nodi mewn perthynas â phob un o'r materion yn yr atodlen, a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau’r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones AC (Cadeirydd)
Irene James AC
Alun Ffred Jones AC
Mick Bates AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyrau penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 30 Ebrill 2005, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw fater, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**

CAIS CYNLLUNIO O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR W DAVIES O DAVMOR DEVELOPMENTS, SYDD WEDI'I ALW I MEWN, I ADEILADU BYNGLO PRESWYL YM MAES YR EGLWYS, LLANYMDDYFRI (PLOT 4)

CAIS CYNLLUNIO O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR W DAVIES O DAVMOR DEVELOPMENTS, SYDD WEDI'I ALW I MEWN, I ADEILADU BYNGLO PRESWYL YM MAES YR EGLWYS, LLANYMDDYFRI (PLOT 3)

CAIS CYNLLUNIO O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR W DAVIES O DAVMOR DEVELOPMENTS, SYDD WEDI'I ALW I MEWN, I ADEILADU FFORDD BRESWYL YM MAES YR EGLWYS, LLANYMDDYFRI

CAIS CYNLLUNIO O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN GYNGOR SIR CAERFYRDDIN, SYDD WEDI'I ALW I MEWN, I DDATBLYGU SAFLE PRESWYL 0.75 HECTAR AR DIR YN HEOL PLUGUFFAN, LLANYMDDYFRI

APÊL GYNLLUNIO O DAN ADRAN 78 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR A MRS BERRY YN ERBYN GWRTHODIAD CANIATÂD CYNLLUNIO ÔL-WEITHREDOL I LEOLI 1 GARAFAN BRESWYL, 1 GARAFAN DEITHIO A SIEDIAU CYSYLLTIEDIG AR GYFER UN TEULU O SIPSIWN AR DIR YN BERRYLAND, HOMESTEAD LANE, WRECSAM AC APÊL A WNAED O DAN ADRAN 174 O'R DDEDDF HONNO GAN MR A MRS BERRY YN ERBYN HYSBYSIAD GORFODI A GYHOEDDWYD YN HONNI NEWID YN NEFNYDD Y TIR I DDARPARU LLE I GARAFAN BRESWYL A SIEDIAU CYSYLLTIEDIG A LLE I BARCIO CERBYDAU AR DIR YN BERRYLAND, HOMESTEAD LANE, WRECSAM.

......................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Y Cwestiynau

......................................

## Urgent Question

**Will the Minister for Economic Development and Transport make a statement on the announcement that 400 jobs will be lost at the headquarters of Iceland in Deeside.**

......................................

## Eitem 3

**Datganiad Busnes**
Y Datganiad Busnes Drafft

......................................

## Eitem 4

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 2004 i Brif Weinidog Cymru**

NDM2344 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau canlynol y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Plant 2004 i Brif Weinidog Cymru, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Adran 25 is-adrannau (8) a (9), Adran 26 is-adran (5), Adran 27 is-adran (4), Adran 28 is-adrannau (4) a (5), Adran 29 is-adrannau (1)(b), (9), (13) a (14), Adran 30, Adran 34 is-adrannau (2) a (3), Adran 35 is-adrannau (1) a (2), Adran 36 is-adrannau (1) - (7), Adran 37 is-adran (1), Adran 38, Adran 39 is-adrannau (2) a (3), Adran 41 acAdran 59.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)+(3)**
**(4)+(5)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn eu trafodaethau â'u cydweithwyr yn Llywodraeth y DU ynghylch penderfyniad unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol (NDM1939, 4 Mai 2004) y dylid ymestyn pwerau Comisiynydd Plant Cymru i gynnwys meysydd polisi sydd heb eu

datganoli.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y byddai CAFCASS wedi'i ddatganoli yn amddiffyn ac yn hyrwyddo lles plant yn well trwy weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru y byddai ei bwerau yn ymestyn dros feysydd polisi sydd heb eu datganoli.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod rhaid monitro rôl, perfformiad ac effeithiolrwydd CAFCASS yn y dyfodol er mwyn sicrhau system o gyfiawnder teuluol sy'n amddiffyn plant ac sy'n cydnabod mai dau riant yw'r rhiant gorau.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad yn ailddatgan ei farn y dylai pob maes polisi heb ei ddatganoli mewn perthynas â phlant fod yn fater i Gomisiynydd Plant Cymru ac yn nodi methiant Llywodraeth Lafur y DU i wrando ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y mater hwn.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Addysg i gyfarfod yn gynnar â Chomisiynydd Plant Lloegr i roi gwybod iddo am y materion a'r pryderon penodol sy'n ymwneud â Chymru.

Dogfennau Ategol
Gellir dod o hyd i Ddeddf Plant 2004 ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

.....................................

***Cynnig i drafod y tair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, gyda phleidleisiau ar wahân***

## Eitem 5

**Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005**

NDM2349 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Deddf Plant (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005

NDM2350 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005 mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Plant (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 drafft; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005
c) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Deddf Plant (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

**.......................................**

## Eitem 6

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005**

NDM2347 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005.

NDM2348 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Plant (Cychwyn Rhif 2) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) Y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005;
b) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau

.......................................

## Eitem 7

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog adran 3 Gorchymyn CAFCASS (Cynllun Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2005**

NDM 2351 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 25.13:

1. Yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Gorchymyn CAFCASS (Cynllun Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Cywiriadau ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn CAFCASS (Cynllun Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2005
Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, gyda phleidleisiau ar wahân***

## Eitem 8

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad a Phrisio Anheddau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

NDM 2354 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad a Phrisio Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

NDM 2355 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad a Phrisio Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad a Phrisio Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

## Eitem 9

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau a Threfniadau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2005**

NDM 2352 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau a Threfniadau

Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

NDM 2353 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau a Threfniadau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau a Threfniadau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**.......................................**

***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd gyda phleidleisiau ar wahân***

## Eitem 10

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) 2005**

NDM 2356 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005.

NDM 2357 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Archwilio (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) Y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**......................................**

## Eitem 11

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) 2005**

NDM 2358 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005.

NDM 2359 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005 mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Deddf Archwilio (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**......................................**

## Eitem 12

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005**

NDM2360 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2005.

NDM2361 Jane Hutt (Bro Morgannwg) - ***TYNNWYD YNOL***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005, mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2005;
b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005;
c) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**.......................................**

## Eitem 13

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2005**

NDM2362 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

NDM2363 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**......................................**

## Eitem 14

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29 yr Egwyddorion ar gyfer Penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) a yw Gofynion Cyllidebol Awdurdodau Unedol a'r Heddlu ar gyfer 2005/06 yn ormodol -**

***TYNNWYD YN ôL***

NDM2364 Jane Hutt (Bro Morgannwg) - ***TYNNWYD YN ôL***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor yr Egwyddorion ar gyfer Penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw Gofynion Cyllidebol Awdurdodau Unedol a'r Heddlu ar gyfer 2005/06 yn ormodol, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

NDM2365 Jane Hutt (Bro Morgannwg) - ***TYNNWYD YN ôL***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3(iii):

Yn cymeradwyo bod yr Egwyddorion ar gyfer Penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw Gofynion Cyllidebol Awdurdodau Unedol a'r Heddlu ar gyfer 2005/06 yn ormodol yn cael eu gwneud yn unol â'r Cyfarwyddiadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mawrth 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 -**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder bod cyfyngu ar allu llywodraeth leol i bennu eu lefelau gwariant yn amharu ar ddemocratiaeth ac atebolrwydd lleol, ac y gall gael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**.......................................**

## Eitem 15

**Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Reol Sefydlog 16.3.**

NDM2346 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

1. Yn penodi Mr Richard Penn yn Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol; ac

2. Yn nodi y bydd y penodiad hwn am gyfnod o 4 blynedd, i ddechrau ar unwaith.

**.......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 16 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**